## ATODLEN 1

## TANWYDDAU AWDURDODEDIG

**5** Bord na Móna Firelogs, a weithgynhyrchir gan Bord na Móna Fuels Limited, Newbridge, County Kildare, Gweriniaeth Iwerddon—

(a) sy'n cynnwys cwyr hydrin (sef rhyw 55 y cant o'r cyfanswm pwysau), blawd llif pren caled (sef rhyw 45 y cant o'r cyfanswm pwysau) a lleithder (sef gweddill y pwysau);

(b) a weithgynhyrchwyd o'r cyfansoddion hynny drwy broses triniaeth wres ac allwthio;

(c) sy'n foncyffion tân, rhyw 255 milimetr eu hyd a 75 milimetr eu diamedr, a chyda rhigolau ar hyd un wyneb hydredol, yn pwyso 1.3 chilogram (net) ar gyfartaledd; ac

(ch) nad ydynt yn cynnwys mwy na 0.1 y cant o sylffwr o'r cyfanswm pwysau.